Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Dyffryn Iâl
**Allt Yr Efail**
**Llandegla**
**Wrecsam**
**Sir Ddinbych**
**LL11 3AW**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2015**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 22/05/2015**

## Cyd-destun

Ysgol bentref yn Llandegla, Sir Ddinbych, yw Ysgol Dyffryn Iâl. Mae'r ysgol o dan reolaeth wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru ac mae'n ysgol cyfrwng Saesneg yn bennaf, gyda defnydd sylweddol o'r Gymraeg. Er bod disgyblion yn cael y cyfle i astudio trwy gyfrwng y Saesneg neu'r Gymraeg, mae bron pob un o'r disgyblion presennol wedi dewis cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Saesneg.

Mae 44 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd, gan gynnwys dau ddisgybl oed meithrin a dau arall sy'n gymwys ar gyfer y cynllun hawl bore oes. Caiff plant eu derbyn i'r ysgol yn rhan-amser yn y tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed, ac yn amser llawn yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed. Mae'r ysgol wedi'i threfnu yn ddau ddosbarth: un dosbarth y Cyfnod Sylfaen ac un dosbarth cyfnod allweddol 2.

Saesneg yw iaith gartref y rhan fwyaf o ddisgyblion, ac ychydig iawn sy'n siarad Cymraeg gartref. Daw'r rhan fwyaf o ddisgyblion o gefndir gwyn Prydeinig. Mae tua 2% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae hyn ymhell islaw'r cyfartaledd lleol a'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae'r ysgol wedi nodi bod gan 23% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Nid oes gan unrhyw ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.

Ym mis Mawrth 2012 y cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf. Ymgymerodd y pennaeth dros dro sydd newydd ei benodi â'i swydd yn Ionawr 2015.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Dyffryn Iâl yn 2014-2015 yn golygu mai'r gyllideb yw £4,948 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Sir Ddinbych yw £9,103 a'r lleiafswm yw £2,902. Mae Ysgol Dyffryn Iâl yn y 18fed safle o'r 47 ysgol gynradd yn Sir Ddinbych o safbwynt ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da
- Mae agweddau cadarnhaol iawn at ddysgu gan bron pob disgybl
- Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys gydag ystod eang o brofiadau dysgu o ansawdd uchel
- Mae'r addysgu yn gyson dda ar draws yr ysgol
- Mae'r ysgol yn gymuned groesawgar, ddymunol a gofalgar, sy'n rhoi pwyslais ar ddatblygu iechyd a lles disgyblion

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn dda oherwydd:

- Mae gweledigaeth glir gan y pennaeth dros dro ar gyfer sicrhau bod pob disgybl yn cyflawni'n dda mewn amgylchedd dysgu sefydlog
- Mae staff yn llawn cymhelliant ac yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn dda
- Mae proses hunanarfarnu eglur gan yr ysgol, ac mae ganddi hanes da o nodi blaenoriaethau a rheoli gwelliant
- Mae athrawon yn cyfrannu'n effeithiol at weithdrefnau hunanarfarnu'r ysgol a'i chynllun datblygu
- Mae llywodraethwyr yn adnabod, yn cefnogi ac yn herio'r ysgol yn effeithiol

## Argymhellion

A1 Codi safonau disgyblion mwy abl

A2 Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau llythrennedd a rhifedd yn gyson ar draws y cwricwlwm.

A3 Darparu cyfleoedd i ddisgyblion ymateb i adborth gan athrawon ynglŷn â'u gwaith a beth sydd angen iddynt ei wneud i wella

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau'r ysgol gyda medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth sy'n briodol i'r rheini a ddisgwylir ar gyfer eu hoed, neu ychydig islaw hynny. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Mae bron yr holl ddisgyblion yn gwrando'n dda ac yn cynnal eu lefelau canolbwyntio am gyfnodau amser priodol. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae bron yr holl ddisgyblion yn dangos medrau siarad da, yn siarad yn frwdfrydig ynglŷn â'u gwaith ac yn ymgymryd â gweithgareddau chwarae rôl yn dda. Mae llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn mynegi'u barnau yn hyderus ac yn huawdl gan ddefnyddio geirfa sydd wedi'i datblygu'n dda, er enghraifft wrth ymateb i gwestiynau athrawon ynglŷn â swyddi yn y cyfnod ar ôl y rhyfel a oedd yn cael eu cyflawni gan ddynion a menywod, fel rhan o'u testun 'Trwy'r Degawdau'.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn darllen ar lefel addas ar gyfer eu hoed a'u gallu, neu uwchlaw hynny. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae bron pob un o'r disgyblion yn cymhwyso'u gwybodaeth am ffoneg yn llwyddiannus wrth ddarllen. Maent yn defnyddio strategaethau priodol i fynd i'r afael â geiriau anghyfarwydd a gallant siarad yn dda am eu hoff gymeriadau. Mae llawer o ddisgyblion yn deall y gwahaniaeth rhwng llyfrau ffuglen a ffeithiol ac maent yn gwybod beth yw rôl awdur a darlunydd. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ddarllenwyr â diddordeb ac yn ddarllenwyr llawn mynegiant. Mae ganddynt fedrau effeithiol i'w helpu i ddarllen gyda dealltwriaeth. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio strategaethau fel llithrddarllen a bwrw golwg ar destunau i nodi gwybodaeth bwysig yn gyflym a llwyddiannus.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu'u medrau ysgrifennu at ystod o ddibenion gwahanol. Maent yn ffurfio llythrennau'n gywir ac yn cyfleu eu syniadau yn dda mewn brawddegau syml, er enghraifft, pan fyddant yn ysgrifennu am Y Tri Mochyn Bach. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio ystod eang o eirfa ac yn atalnodi eu gwaith gyda chywirdeb cynyddol.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu'n estynedig yn aml ac yn cynhyrchu gwaith clir wedi'i gyflwyno'n dda ac sy'n cynnwys strwythur, er enghraifft wrth gyfansoddi llythyrau oddi wrth faciwîs at eu rhieni. Mae llawer ohonynt yn defnyddio geirfa ddiddorol mewn paragraffau byr i gyfleu eu syniadau'n llwyddiannus ac i ddal diddordeb eu cynulleidfa. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso'u medrau llythrennedd yn effeithiol i ysgrifennu i safon debyg ar draws llawer o feysydd y cwricwlwm.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ddeall cysyniadau mathemategol. Er enghraifft, ym Mlwyddyn 2, mae llawer o

ddisgyblion yn ysgrifennu ac yn trefnu rhifau hyd at 100 yn gywir, yn adio a thynnu rhifau dau ddigid yn gywir ac yn cofnodi data mewn rhestri a thablau syml. Mae ganddynt ddealltwriaeth glir o iaith mathemateg ac maent yn defnyddio hyn yn hyderus wrth siarad am siapiau 2D a 3D a mesurau safonol. Fodd bynnag, nid yw gallu disgyblion i gymhwyso'u medrau rhifedd mewn meysydd dysgu eraill wedi'i ddatblygu cystal.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos medrau mathemategol cadarn a dealltwriaeth dda o ystod o gysyniadau mathemategol. Gwnânt amcangyfrifon cywir drwy dalgrynnu rhifau degol i'r cyfanrif agosaf, ac maent yn deall y berthynas rhwng ffracsiynau, degolion a chanrannau. Maent yn cofnodi data yn dda, yn creu graffiau addas ac yn dehongli'r data yn briodol, er enghraifft y gwahaniaeth cyfartalog mewn tymheredd tywydd misol yn Shanghai. Erbyn hyn, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud ymdrechion da i gymhwyso'u gwybodaeth fathemategol i weithgareddau datrys problemau mewn meysydd eraill o'r cwricwlwm.

Ar draws yr ysgol, mae gan bron pob disgybl agwedd gadarnhaol iawn at ddysgu Cymraeg. Mae llawer o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn deall ac yn ymateb yn frwdfrydig i gyfarwyddiadau gan staff yn Gymraeg, a gallant ofyn ac ateb cwestiynau gan ddilyn patrymau iaith sylfaenol yn dda. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu darnau byr priodol, er enghraifft amdanynt eu hunain, ac maent yn datblygu medrau darllen cynnar da. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn ateb cwestiynau mewn brawddegau estynedig, gan esbonio'u syniadau a mynegi'u dewisiadau. Gall y rhan fwyaf o ddisgyblion gymryd rhan yn hyderus mewn sgwrs anffurfiol, estynedig. Mae medrau darllen ac ysgrifennu'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn Gymraeg o safon dda, ac erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu'n glir mewn brawddegau syml, gan ddefnyddio patrymau sefydledig a geirfa briodol.

Ar draws yr ysgol, mae gan bron pob disgybl fedrau cadarn mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ac maent yn eu defnyddio'n effeithiol i ddatblygu'u medrau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da tuag at gyflawni'u targedau dysgu.

Gan mai ychydig iawn o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau am ddim sydd yn yr ysgol, nid yw'r gwaith o arfarnu perfformiad y grŵp hwn o ddysgwyr o gymharu â disgyblion eraill yn ddibynadwy. Fodd bynnag, mae bron pob disgybl sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn unigol. Mae gwahaniaeth nodedig rhwng perfformiad bechgyn o gymharu â merched dros gyfnod.

Dros y blynyddoedd diwethaf, nifer gymharol isel o ddisgyblion (10 neu lai) mewn grwpiau blwyddyn ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2 fu gan yr ysgol. Gall hyn effeithio'n sylweddol ar batrwm perfformiad cyffredinol yr ysgol o flwyddyn i flwyddyn mewn asesiadau diwedd blwyddyn o gymharu â meincnodau cenedlaethol.

Mae tuedd gyffredinol am i fyny dros dair blynedd yng nghanlyniadau disgyblion o ran y deilliant disgwyliedig yn y Cyfnod Sylfaen. Mae hyn yn symud yr ysgol rhwng y 25% gwaelod a'r 25% uchaf o ysgolion tebyg. Ar y deilliant uwch na'r disgwyl, mae tuedd anghyson, gyda pherfformiad mewn llythrennedd Saesneg yn symud yr ysgol rhwng y 25% uchaf a'r 50% is o ysgolion tebyg. Mae perfformiad yr ysgol yn ei gosod yn gyson rhwng y 50% is a'r 25% gwaelod o ysgolion tebyg mewn datblygiad mathemategol a llythrennedd Cymraeg.

Yng nghyfnod allweddol 2 ar y lefel ddisgwyliedig a'r lefel uwch na'r disgwyl, mae perfformiad yr ysgol dros bedair blynedd yn dangos tuedd anghyson. Ar y lefel ddisgwyliedig, mae perfformiad yr ysgol wedi ei gosod yn gyson yn y 25% uchaf mewn Saesneg a Chymraeg, ac mae'r ysgol wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 25% gwaelod o ysgolion tebyg mewn mathemateg a gwyddoniaeth. Mae perfformiad ar y lefel uwch na'r disgwyl wedi symud yr ysgol rhwng y 50% uwch a'r 25% gwaelod o ysgolion tebyg mewn gwyddoniaeth a rhwng y 50% is a'r 25% gwaelod mewn Saesneg, Cymraeg a mathemateg.

**Lles: Da**

Mae gan bron bob disgybl agweddau cadarnhaol at ddysgu ac maent yn mwynhau dod i'r ysgol.

Mae pob disgybl yn gwybod at bwy i droi i gael cyngor os oes ganddynt unrhyw bryderon. Mae bron yr holl ddisgyblion yn hynod gryf eu cymhelliant ac maent yn cyfranogi'n effeithiol mewn ystod o weithgareddau dosbarth. Gwnânt ddewisiadau synhwyrol ynglŷn â'u dysgu eu hunain. Maent yn ymddwyn yn dda iawn ac yn gwrtais tuag at ei gilydd ac oedolion.

Mae bron yr holl ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach, a gwneud ymarfer corff rheolaidd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn manteisio ar weithgareddau allgyrsiol a drefnwyd yn ddiweddar, fel y clwb garddio, i wella eu dysgu. Mae'r system cyfeillion buarth a fabwysiadwyd gan yr ysgol amser egwyl yn helpu i ddangos y lefelau da o ystyriaeth y mae disgyblion yn dangos at ei gilydd. Mae hyn yn llwyddo atgyfnerthu lles disgyblion.

Drwy'r cyngor ysgol a'r cyngor eco, mae disgyblion yn gwerthfawrogi'r cyfle i wneud penderfyniadau ynglŷn â gweithgareddau ysgol fel mentrau codi arian amrywiol. Fodd bynnag, nid yw'r cyngor ysgol wedi'i ddatblygu digon ac nid yw eto yn gwneud penderfyniadau strategol sy'n effeithio ar fywyd a gwaith yr ysgol.

Mae'r ysgol yn datblygu ymwybyddiaeth disgyblion o'r gymuned leol yn dda drwy ymweliadau rheolaidd â'r eglwys leol a thrwy ddigwyddiadau amrywiol a gynhelir yn ystod y flwyddyn. Er enghraifft, cymerodd ddisgyblion cyfnod allweddol 2 ran weithgar mewn gweithgareddau Dydd y Cofio.

Mae presenoldeb a phrydlondeb yr ysgol yn gyson dda. O gymharu ag ysgolion tebyg, mae'r ysgol wedi bod yn y 25% uchaf o ysgolion am y ddwy flynedd diwethaf.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys ac ystod dda iawn o brofiadau dysgu o ansawdd uchel sy'n bodloni'r holl ofynion statudol. Mae athrawon yn cydweithredu'n effeithiol iawn i greu cynlluniau gwaith tymor hir a thymor byr sy'n gosod sylfaen gadarn ar gyfer dysgu yn y ddau gyfnod allweddol.

Mae dull effeithiol ar waith ar gyfer gweithredu'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. O ganlyniad, mae'r ddarpariaeth medrau mewn llythrennedd, rhifedd a TGCh wedi'i sefydlu'n dda. Er enghraifft, mewn llythrennedd, mae menter ddiweddar i ddatblygu ysgrifennu estynedig yn effeithio ar safonau; ac mae gweithgareddau rhifedd yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gallu defnyddio'r medrau perthnasol i ddatrys problemau mathemategol yn hyderus. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn cynllunio'n ddigon effeithiol bob amser i alluogi disgyblion i ddefnyddio'u medrau rhifedd yn gyson ar draws pob pwnc.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn gadarn ac yn un o gryfderau'r ysgol. Mae staff yn trochi disgyblion yn ddyddiol mewn profiadau yn y Gymraeg, sy'n helpu datblygu'u medrau llefaredd, darllen ac ysgrifennu Cymraeg yn effeithiol. Mae eisteddfod yr ysgol, amryw o weithgareddau'r Urdd ac ymweld â chanolfan breswyl Gymraeg yn hyrwyddo gwybodaeth disgyblion am hanes a diwylliant Cymru yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn dda drwy'r cwricwlwm. Mae'n cynnig profiadau gwerthfawr i'r disgyblion sy'n gwella eu gwybodaeth am faterion ailgylchu. Mae aelodau'r cyngor eco wedi gosod targedau clir ar gyfer eu hunain tuag at gyflawni statws Eco-Ysgol.

**Addysgu: Da**

Mae pob athro yn dangos gwybodaeth bynciol gyfoes ac yn defnyddio ystod eang o ddulliau a strategaethau yn effeithiol i ennyn diddordeb a chymell disgyblion. Mae ganddynt amcanion dysgu clir ar gyfer eu gwersi ac maent yn rhannu'r rhain yn dda gyda disgyblion i ddarparu diben clir i'r dysgu. Ceir cydbwysedd da rhwng gweithgareddau sy'n cael eu hysgogi gan ddisgyblion a gweithgareddau sy'n cael eu cyfarwyddo gan oedolion. Mae hyn yn hyrwyddo annibyniaeth a medrau meddwl disgyblion yn dda.

Mae rhediad da y gwersi, defnydd effeithiol athrawon o gwestiynau heriol a'r ystod o weithgareddau ysgogol yn golygu bod yr addysgu yn gyson dda ar draws yr ysgol. Mae athrawon a staff cymorth yn gweithio'n dda gyda'i gilydd i sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd addas mewn gwersi. Gwneir defnydd effeithiol o TGCh gan bob un o'r athrawon fel offeryn addysgu i wella dysgu disgyblion. Mae bron yr holl staff yn defnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd ac effeithiol mewn ystod o sefyllfaoedd i ddatblygu medrau iaith Gymraeg disgyblion a'u hymwybyddiaeth ddiwylliannol.

Mae gweithdrefnau asesu effeithiol ar waith gan yr ysgol. Mae'n defnyddio system ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion ar draws yr ysgol yn effeithiol. Mae athrawon yn

defnyddio'r data hwn yn dda i nodi disgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt, ac i fonitro eu cynnydd. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn llwyddiannus i lywio eu cynlluniau tymor byr a thymor hir ac i osod targedau disgyblion unigol.

Yn gyffredinol, mae pob un o'r athrawon yn defnyddio ystod dda o strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn effeithiol. Caiff disgyblion sylwadau ysgrifenedig sy'n eu helpu i wella eu gwaith, ond hyd yma nid ydynt wedi cael cyfleoedd i ymateb yn llawn i'r sylwadau.

Mae adroddiadau blynyddol disgyblion yn rhoi gwybodaeth addas i rieni am gynnydd a chyflawniadau eu plentyn, ac maent yn cynnwys targedau ar gyfer gwella ymhellach.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned groesawgar, ddymunol a gofalgar iawn, sy'n gosod pwyslais ar ddatblygu iechyd a lles disgyblion yn dda. Mae trefniadau priodol gan yr ysgol ar gyfer bwyta ac yfed yn iach.

Mae rhaglen helaeth o weithgareddau addysgol yn yr ysgol sy'n hyrwyddo datblygiad cymdeithasol, moesol, ysbrydol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn cael cyfle gwerthfawr i drafod themâu penodol yn ystod eu gwaith dosbarth ar "Sut i fod yn ffrind da", er mwyn gwella eu dealltwriaeth o gyfeillgarwch. Mae disgwyliadau uchel o ymddygiad disgyblion gan bob aelod o staff, ac mae bron pob disgybl yn ymateb yn dda i'r arweiniad hwn.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd cynhwysfawr o ystod o asiantaethau sy'n darparu cyfraniad gwerthfawr o ran cefnogi'r disgyblion. Er enghraifft, mae swyddog cyswllt yr heddlu yn darparu cymorth effeithiol i ddisgyblion ar themâu amrywiol, fel diogelwch y rhyngrwyd. Mae pob un o'r rhieni a disgyblion yn teimlo bod yr ysgol yn darparu amgylchedd diogel. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu yn bodloni'r gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gynhwysfawr ac yn cydymffurfio'n llawn â'r gofynion statudol. Mae athrawon yn mabwysiadu strategaethau ymyrryd priodol yn gynnar, a thros gyfnod, mae'r rhain yn galluogi disgyblion i wneud cynnydd da yn unol â'u galluoedd. Mae staff yn rheoli anghenion unigol disgyblion yn dda ac mae rhieni yn cael gwybodaeth dda ac yn cael eu cynnwys yn llawn wrth osod ac adolygu cynlluniau addysg eu plentyn. Mae cysylltiadau niferus gyda gwasanaethau arbenigol fel Therapi Lleferydd ac Iaith yn darparu cymorth effeithiol i'r ysgol, ac mae hyn yn effeithio'n dda ar safonau a lles disgyblion.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos cynhwysol, cymunedol yn yr ysgol, lle caiff disgyblion fynediad cyfartal i bob agwedd ar fywyd yr ysgol. Mae dealltwriaeth dda gan ddisgyblion o'r byd amrywiol rydym yn byw ynddo, ac maent yn dysgu i ddangos gofal ac ystyriaeth o rai eraill a'r amgylchedd.

Tu mewn i'r ysgol, mae'r adeilad yn ddeniadol ac yn darparu amgylchedd dysgu llon i ddisgyblion. Mae ystafelloedd dosbarth yn olau a lliwgar gydag arddangosiadau ac adnoddau sy'n hyrwyddo dysgu disgyblion yn effeithiol. Mae'r ardal dysgu awyr agored yn y Cyfnod Sylfaen yn darparu cyfleoedd dysgu ysgogol i ddisgyblion, ac mae mannau tu allan yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda, yn lân ac yn daclus. Mae safle'r ysgol yn darparu amgylchedd cadarn a diogel i ddisgyblion.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gweledigaeth glir gan y pennaeth dros dro ar gyfer sicrhau bod pob disgybl yn cyflawni ei orau mewn amgylchedd dysgu sefydlog. Mae'n cyfleu hyn yn effeithiol iawn i'r staff, llywodraethwyr a rhieni, ac yn y cyfnod byr y bu yn ei swydd, mae wedi cael effaith gadarnhaol ar yr addysgu a'r dysgu yn yr ysgol. O ganlyniad i fentrau diweddar, mae safonau disgyblion mewn ysgrifennu Cymraeg yn dangos gwelliant nodedig, ac mae safon cyflwyniad eu gwaith wedi gwella'n sylweddol.

Mae'r holl athrawon yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd fel tîm, ac mae dealltwriaeth glir gan bob un o'r staff o flaenoriaethau presennol yr ysgol. Mae cyfarfodydd staff wythnosol yn canolbwyntio'n dda ar gynnydd disgyblion a gwella'r ddarpariaeth, ac maent yn sicrhau bod perchenogaeth a rennir ar gynlluniau gweithredu'r ysgol. Mae pob un o'r athrawon yn cyfrannu'n effeithiol at ddadansoddi data perfformiad, ac at osod targedau priodol ar gyfer gwelliant pellach.

Mae llywodraethwyr yn adnabod ac yn cefnogi'r ysgol yn dda iawn. Mae ganddynt ddealltwriaeth glir o ddata perfformiad yr ysgol, a'r blaenoriaethau ar gyfer gwella'r ysgol. Maent yn cwestiynu'r ysgol yn drwyadl ynglŷn â phob agwedd ar ei pherfformiad, gan gynnwys safonau disgyblion. Fodd bynnag, nid ydynt yn gwneud cyfraniad ddigon strategol at broses hunanarfarnu'r ysgol.

Mae'r ysgol yn talu sylw priodol i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol, ac yn ddiweddar mae wedi canolbwyntio'n gadarn ar ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae proses hunanarfarnu glir ar waith gan yr ysgol, ac mae'n effeithiol o ran nodi blaenoriaethau a rheoli gwelliant. Er ei fod yn newydd i'w swydd, mae arwyddion cynnar bod y pennaeth dros dro eisoes yn cael effaith gadarnhaol ar safonau ysgrifennu disgyblion yn Gymraeg ac ansawdd cyflwyno'u gwaith.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu cyfredol wedi'i adolygu a'i ddiweddaru'n ddiweddar. Mae'n ddogfen fanwl, ac yn gyffredinol mae'n rhoi dadansoddiad defnyddiol o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella. Mae pob athro yn cyfrannu'n effeithiol at yr adolygiad, ac yn rhoi ystyriaeth ddyledus i ddata perfformiad a chanlyniadau monitro er mwyn helpu nodi'r prif flaenoriaethau.

Mae cynllun datblygu'r ysgol wedi'i seilio'n gadarn ar ganlyniadau'r adroddiad hunanarfarnu. Mae'n ddogfen weithio ymarferol sy'n rhoi eglurder i arweinwyr a staff addysgu ar weithredu a monitro cynlluniau gwella. Dyrannwyd adnoddau priodol, amserlen a chyllideb i'r holl flaenoriaethau a amlinellwyd yn y cynllun, ac maent yn diffinio'n glir y cyfrifoldebau ar gyfer monitro ac adolygu.

Mae'r ddogfen yn cael ei harddangos yn ystafell y staff, ac mae athrawon yn olrhain cynnydd yn rheolaidd ac yn glir o ran pob blaenoriaeth. Mae hyn yn sicrhau bod cynllun datblygu'r ysgol a'i weithrediad parhaus yn darparu ffocws clir i'r staff addysgu yn yr ysgol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus gydag ystod o bartneriaid.

Mae'r bartneriaeth rhwng yr ysgol a rhieni yn un gadarn. Ceir cyfleoedd bob tymor i rieni drafod cynnydd eu plant ac unrhyw bryderon yn ystod nosweithiau rhieni rheolaidd. Mae'r ysgol hefyd yn trefnu nosweithiau gwybodaeth i rieni o bryd i'w gilydd i gefnogi mentrau newydd, er enghraifft datblygu rhesymu rhifiadol a chynorthwyo â darllen plant. Mae'r cylchlythyr wythnosol a gwefan yr ysgol sy'n cael ei chynnal yn dda yn rhoi gwybodaeth yn effeithiol i rieni am holl weithgareddau'r ysgol. Mae rhai rhieni yn gwirfoddoli i gynorthwyo â gwaith yr ysgol mewn ffordd ymarferol, er enghraifft codi arian a gwerthu gwisg ysgol ail law.

Ceir partneriaeth dda â'r awdurdod lleol a'r consortiwm rhanbarthol, ac yn ddiweddar mae'r ysgol wedi elwa ar arbenigedd proffesiynol mewn menter i wella addysgu rhifedd, ac i gefnogi datblygiad arweinyddiaeth y pennaeth newydd.

Mae'r ysgol yn chwarae rhan bwysig yn y gymuned leol, ac mae'n meithrin perthynas effeithiol gydag aelodau'r ardal leol. Mae'r rheithor lleol yn arwain gwasanaeth dathlu wythnosol yr ysgol yn yr eglwys leol. O bryd i'w gilydd hefyd, mae'r disgyblion yn cymryd rhan mewn gwasanaethau arbennig ar y Sul yn yr eglwys, ac mae hyn yn datblygu'u hymdeimlad o berthyn ac yn meithrin eu datblygiad ysbrydol yn dda. Mae aelodau'r gymuned yn helpu'r ysgol i ddatblygu eu gardd, gan gyfrannu'n effeithiol at ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o faterion amgylcheddol a gwyddoniaeth.

Mae'r ysgol yn cydweithredu'n llwyddiannus ag ysgolion cynradd eraill yn y dalgylch. Maent yn safoni gwaith disgyblion yn effeithiol i gefnogi asesiadau athrawon, ac yn rhannu adnoddau'n effeithlon ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus. Mae'r berthynas dda rhwng yr ysgol a'i hysgol uwchradd leol wedi sicrhau bod trefniadau pontio effeithiol ar gyfer disgyblion sy'n trosglwyddo i'r cyfnod nesaf yn eu haddysg.

Mae perthynas weithio dda gan yr ysgol â'r cylch chwarae lleol, sy'n cyfarfod yn y neuadd yn wythnosol. Mae plant y cylch chwarae yn ymuno mewn gweithgareddau fel diwrnod mabolgampau a chyngherddau, a cheir cysylltiadau gweinyddol cadarn gydag ysgrifennydd yr ysgol. Mae hyn yn sicrhau bod plant yn ymgartrefu'n gyflym pan fyddant yn dechrau'r ysgol.

**Rheoli adnoddau:  Da**

Mae gan yr ysgol nifer briodol o athrawon a chynorthwywyr dosbarth sy’n meddu ar ystod addas o brofiad a medrau.  Mae’r pennaeth yn defnyddio’r staff yn effeithiol i sicrhau eu bod yn cyflwyno’r cwricwlwm yn llwyddiannus, ac i ddarparu amser cynllunio, paratoi ac asesu.

Ceir trefniadau cadarn ar gyfer rheoli perfformiad athrawon, ac mae’r rhain yn arwain at osod amcanion gwella priodol sy’n cysylltu’n dda â blaenoriaethau gwella’r ysgol. Mae’r ysgol yn darparu cyfleoedd da ar gyfer datblygiad proffesiynol ei hathrawon a’i chynorthwywyr dosbarth.

Mae cyflenwad da o adnoddau o safon gan yr ysgol i fodloni anghenion holl feysydd y cwricwlwm.  Caiff y rhain eu rheoli’n dda, ac mae athrawon yn eu defnyddio’n effeithiol i gefnogi dysgu disgyblion.

Mae’r ysgol yn cysylltu ei phenderfyniadau gwario yn briodol i wella safonau a lles disgyblion.  Mae’r pennaeth a llywodraethwyr yn monitro’r gwariant hwn yn dda.  Er bod diffyg yng nghyllideb yr ysgol ar hyn o bryd, mae cynlluniau priodol ar waith gan arweinwyr yr ysgol a’r awdurdod lleol i fynd i’r afael â’r mater hwn.

Hyd at yn ddiweddar iawn, nid oedd unrhyw ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim.  O ganlyniad, nid yw’r ysgol yn derbyn y grant amddifadedd disgyblion.

O ystyried cynnydd a deilliannau disgyblion a safon y ddarpariaeth, mae’r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

# Atodiad 1:  Sylwadau ar ddata perfformiad

**6633061 - Ysgol Dyffryn Iâl**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 52 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 0.9 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 8 | * | 7 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 87.5 | * | 85.7 |
| Chwartel meincnod | 3 | * | 4 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 8 | * | 6 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 87.5 | * | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | * | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 25.0 | * | 33.3 |
| Chwartel meincnod | 3 | * | 3 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 8 | * | 7 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 87.5 | * | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | * | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 25.0 | * | 28.6 |
| Chwartel meincnod | 3 | * | 3 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 8 | * | 7 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 87.5 | * | 85.7 |
| Chwartel meincnod | 4 | * | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 12.5 | * | 42.9 |
| Chwartel meincnod | 4 | * | 4 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6633061 - Ysgol Dyffryn Iâl**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 52 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 0.9 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | * | 7 | 6 | 10 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | * | 85.7 | 100.0 | 80.0 |
| Chwartel meincnod | * | 3 | 1 | 4 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | 7 | 6 | 10 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | * | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | * | 1 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | 14.3 | 33.3 | 30.0 |
| Chwartel meincnod | * | 4 | 3 | 4 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | 7 | 6 | 10 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | * | 85.7 | 100.0 | 80.0 |
| Chwartel meincnod | * | 4 | 1 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | 14.3 | 33.3 | 20.0 |
| Chwartel meincnod | * | 4 | 4 | 4 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | 7 | 6 | 10 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | * | 85.7 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | * | 4 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | 14.3 | 50.0 | 20.0 |
| Chwartel meincnod | * | 4 | 2 | 4 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd yn hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 23 | 23<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 23 | 23<br>100%<br>92% | 0<br>0%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 23 | 22<br>96%<br>97% | 1<br>4%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 23 | 23<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 23 | 21<br>91%<br>96% | 2<br>9%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 23 | 22<br>96%<br>96% | 1<br>4%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 23 | 23<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 23 | 22<br>96%<br>98% | 1<br>4%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 23 | 21<br>91%<br>91% | 2<br>9%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 23 | 23<br>100%<br>95% | 0<br>0%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 22 | 22<br>100%<br>77% | 0<br>0%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 23 | 23<br>100%<br>84% | 0<br>0%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

# Ymatebion i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd yn hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 21 | 12 | 8 | 0 | 0 | 1 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 57% | 38% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 21 | 16 | 5 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 76% | 24% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 21 | 18 | 3 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 86% | 14% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 21 | 12 | 6 | 1 | 0 | 2 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 57% | 29% | 5% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 21 | 14 | 4 | 0 | 0 | 3 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 67% | 19% | 0% | 0% | | |
| | | 46% | 45% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 21 | 12 | 8 | 0 | 0 | 1 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 57% | 38% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 21 | 14 | 6 | 0 | 0 | 1 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 67% | 29% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 21 | 8 | 8 | 2 | 0 | 3 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 38% | 38% | 10% | 0% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 21 | 13 | 6 | 0 | 0 | 2 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 62% | 29% | 0% | 0% | | |
| | | 58% | 33% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 21 | 13 | 8 | 0 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 62% | 38% | 0% | 0% | | |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 21 | 13 | 8 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 62% | 38% | 0% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 21 | 11 | 3 | 0 | 0 | 7 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 52% | 14% | 0% | 0% | | |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 21 | 12 | 7 | 0 | 1 | 1 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 57% | 33% | 0% | 5% | | |
| | | 49% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 20 | 14<br>70% | 5<br>25% | 0<br>0% | 1<br>5% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 21 | 13<br>62% | 7<br>33% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 45% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 21 | 13<br>62% | 7<br>33% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 56% | 38% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 20 | 10<br>50% | 3<br>15% | 0<br>0% | 0<br>0% | 7 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 43% | 33% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 21 | 12<br>57% | 5<br>24% | 1<br>5% | 0<br>0% | 3 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 54% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 21 | 13<br>62% | 6<br>29% | 0<br>0% | 0<br>0% | 2 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 61% | 32% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Sioned Thomas | Arolygydd Cofnodol |
| Terwyn Tomos | Arolygydd Tîm |
| David Jenkins | Arolygydd Lleyg |
| Dylan Roberts | Arolygydd Cymheiriaid |
| Huw Rowlands | Enwebai |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae’r tabl canlynol yn nodi’r amrediad oedrannau sy’n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw’r grŵp blwyddyn sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r Cyfnod Sylfaen a’r cyfnodau allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.

.